Myfanwy

1. Pa ham mae dicter, O Myfanwy,
Yn llenwi'th lygaid duon du?
A'th ruddiau tirion, O Myfanwy,
Heb wrido wrth fy ngweled i?
Pa le mae'r wen oedd ar dy wefus
Fu'n cynnau 'nghariad ffyddlon ffol?
Pa le mae sain dy eiriau melys,
Fu'n denu'n nghalon ar dy ôl?

2. Pa beth a wneuthym, O Myfanwy,
I haeddu gwg dy ddwyrudd hardd?
Ai chwarae oeddit, O Myfanwy
Â thanau euraidd serch dy fardd?
Wyt eiddo im drwy gywir amod
Ai gormod cadw'th air i mi?
Ni cheisiaf fyth mo'th law, Myfanwy,
Heb gael dy galon gyda hi.

3. Myfanwy boed yr holl o'th fywyd
Dan heulwen disglair canol dydd.
A boed i rosyn gwridog ienctid
I ddawnsio ganmlwydd ar dy rudd.
Anghofia'r oll o'th addewidion
A wnest i rywun, 'ngeneth ddel,
A rho dy law, Myfanwy dirion
I ddim ond dweud y gair "Ffarwel".